



CYMDEITHAS RHINIEN AC ATHRAWON  
**YSGOL CERRIGYDRUDION**  
PARENT & TEACHER'S ASSOCIATION  
Medi 2020 / September 2020

Llwyn Saint, Ty Nant, Corwen

Ffôn Symudol / Mobile Number  
07766168764

Annwyl Gyd-Rieni,

Croeso nol i bawb ar ol cyfnod rhyfedd iawn ini gyd. Mae'r misoedd diwethaf wedi bod yn unigryw iawn i bawb. Diolch yn fawr i'r holl staff am eu gofal o'r plant a'u harweiniad yn ystod cyfnod heriol iawn. Dwi'n siwr bod pawb yn falch o fod nol i ryw fath o normalrwydd.

I rieni sy'n newydd, hoffwn eich croesawu i gymdeithas yr ysgol ac esbonio ychydig am ein amcanion fel Cymdeithas Rhieni ac Athrawon. Yn ystod y flwyddyn, rydym fel arfer yn cynnal nosweithiau adloniant a digwyddiadau arbennig i ddiddanu a chodi arian er budd disgyblion yr ysgol. Mae'r elw a wneir o'r digwyddiadau hyn yn mynd tuag at gostau tripiâu, difyrwch adeg y Nadolig, gweithgareddau ac adnoddau hanfodol o fewn y dosbarth. Mae pob plentyn yn elwa o'r arian a gesglir felly mae diolch diffuant i bawb sydd yn cyfrannu. Wrth gwrs mi fydd eleni yn flwyddyn wahanol iawn i'r arfer ac yn un heriol ini gyd.

**Swyddogion eleni yw:**

Cadeirydd: Mrs Eirlys Edwards.  
Ysgrifenyddes: Eiliw Owen  
Is-ysgrifenyddes: Lowri Roberts  
Trysorydd: Karen Robinson  
Is-Drysorydd: Elin Taylor

Gan bod y flwyddyn diwethaf wedi bod yn un fer mae'r cynrychiolwyr blwyddyn wedi cytuno i aros ymlaen ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Diolch o galon i chi am gytuno!

**Cynrychiolwyr Blwyddyn:**

Blwyddyn 6: Eleri (Awel)  
Blwyddyn 5: Nia (Ifan)  
Blwyddyn 4: Sharon (Glyn)  
Blwyddyn 3: Karen (Ethan)  
Blwyddyn 2: Sharon (Harri Fon)  
Blwyddyn 1: Elin (Ianto)  
Derbyn: Elen (Elsi)  
Meithrin: Lowri (Nedw)

Dear Parents,

*Welcome back after a very strange period for us all. The last few months have been quite unique for everyone. Many thanks to the staff for their care of the children and their guidance during a very challenging time. I'm sure everyone is glad to be back to some sort of normality.*

*To the parents who are new to the school, I would like to welcome you and explain the aims of the Parent Teachers Association. During the school year we usually arrange events to raise money for the benefit of the school pupils. The profits made from these events help fund costs such as travel (swimming lessons and school trips), entertainment during the Christmas period and essential equipment within the classrooms. Every child benefits from the monies raised and we are very grateful to all who contribute. As you can imagine this year will be quite different and a challenge for us all.*

**Our officials for this year are:**

*Chairperson: Mrs Eirlys Edwards  
Secretary: Eiliw Owen  
Vice-Secretary: Lowri Roberts  
Treasurer: Karen Robinson  
Vice-Treasurer: Elin Taylor*

*As last year was cut short the year representatives have agreed to stay on for the new academic year. Many thanks to you all!*

**Year representatives are:**

*Year 6: Eleri (Awel)  
Year 5: Nia (Ifan)  
Year 4: Sharon (Glyn)  
Year 3: Karen (Ethan)  
Year 2: Sharon (Harri Fon)  
Year 1: Elin (Ianto)  
Reception: Elen (Elsi)  
Meithrin: Lowri (Nedw)*

### **Syniadau Newydd Codi Arian**

Mae'n anhebygol iawn y cawn gynnal digwyddiadau codi arian lle mae criw mawr yn dod ynghyd ar hyn o bryd. Ni fyddwn yn cael y siawns i stiwardio yn Rali GB eleni nac ychwaith cynnal Noson Goffi yn yr Hydref oedd yn dod a symiau sylweddol o arian i mewn er budd y disgyblion. Byddem felly wir yn gwerthfawrogi unrhyw syniadau sydd gennych am ddulliau newydd i ni godi arian yn ystod y flwyddyn academaidd yma. Rydym wedi paratoi holiadur byr i chi gael rhannu eich syniadau efo ni. Gorau po fwy o syniadau - byddem wir yn eu gwerthfawrogi.

### **Grantiau Ffermydd Gwynt**

Ar nodyn positif - ar ddechrau'r cyfnod clo cawsom y newyddion da ein bod wedi bod yn llwyddianus gyda cais am arian grant Fferm Wynt Brenig ar gyfer prynu 10 laptop ac 16 i-pad ar gyfer defnydd sefydliadau sydd yn defnyddio Canolfan Uwchaled yn ogystal a disgyblion yr ysgol.

Bydd rhain yn cryfhau darpariaeth a datblygiad technoleg gwybodaeth disgyblion yr ysgol ac yn ddefnyddiol ar gyfer cynnal clwb digidol yn yr ysgol yn y dyfodol. Rydym hefyd wedi llunio cais ar gyfer ystafell ddosbarth tu allan / llwyfan gymunedol ond ni fu'm yn llwyddianus gyda'r cais hwnnw tro yma. Os oes gennych syniadau eraill am geisiadau posib i'r dyfodol fydd o fudd i ddisgyblion yr ysgol a'r gymuned ehangach gadewch ini wybod drwy lenwi yr holiadur ynghlwm.

### **Gwefan yr Ysgol**

Fel y gwyddoch o bosib mae'r ysgol yn y broses o ddatblygu eu gwefan a hoffent dderbyn barn rhieni ynglyn a beth hoffent ei weld fel cynnwys ar y wefan. Mae lle wedi ei gynnwys ar yr holiadur ichi gynnig syniadau am gynnwys y wefan.

### **Cyngerdd Nadolig**

Ar hyn o bryd yn anffodus nid ydi yn bosib cynnal digwyddiadau fel cyngerddau. Byddai'r ysgol yn gwerthfawrogi barn rhieni ynglyn a digwyddiadau fel y cyngerdd Nadolig. Mae lle

### **Fundraising Ideas**

At present, we cannot hold fundraising events where a large group come together. Parents usually volunteer to steward during the Rally GB (which has been cancelled this year) and we usually hold a Coffee Evening in Autumn. Both events brought in significant sums of money for the benefit of the pupils. We would therefore really appreciate any innovative ideas you may have of ways to raise funds. We have prepared a short questionnaire for you to share your ideas with us. The more ideas the better - we would really appreciate them.

### **Wind Farm Grants**

On a positive note - at the beginning of the lockdown period we were successful with an application for Brenig Wind Farm grant funding to purchase 10 laptops and 16 i-pads for use by the Ganolfan (Community Centre) and the school pupils.

These will help strengthen the provision and development of pupils' information technology skills at the school. We also submitted an application for an outdoor classroom but were not successful on this occasion. If you have other ideas about possible future applications that will benefit pupils in the school and the wider community please let us know by completing the attached questionnaire.

### **School Website**

As you may be aware the school is in the process of developing their website and would like to receive parents' views on what they would like to be included on the website. A question has been included on the attached questionnaire for you to suggest ideas about the content of the website.

### **Christmas Concert**

At the moment unfortunately it is not possible to hold events such as concerts. The school would appreciate parents' views on events such as the School Christmas concert. The attached questionnaire gives you the

wedi ei gynnwys ar yr holiadur ichi leisio eich barn am ddigwyddiadau torfol yn ystod y flwyddyn.

Dyma wybodaeth am rai o ymdrechion codi arian parhaol y Gymdeithas a sut medrwch chi gefnogi:

### **Loteri yr Ysgol**

Beth am brynu tocynnau loteri ein hysgol drwy'r wefan [www.YourSchoolLottery.co.uk/play](http://www.YourSchoolLottery.co.uk/play) gan ddewis Ysgol Cerrigydrudion fel yr elusen yr hoffech ei gefnogi. Fel cefnogwr, gallech ymuno am cyn lleied â £1 yr wythnos ac am hynny, cewch gyfle i ennill gwobr wythnosol i rywun o fewn **cymuned ysgol Cerrigydrudion**. Po fwyaf o bobl sy'n cymryd rhan, ucha'n byd fydd y wobwr, a'r arian a godir i'r ysgol.

### **Easy Fundraising**

Beth am gychwyn yr ymdrech codi arian drwy fynd ar y wefan uchod?! Chwiliwch am Ysgol Cerrigydrudion, cofrestrwch eich manylion, a bydd yr ysgol yn derbyn cynfraniadau ar eich rhan pan fyddwch yn siopa ar-lein gyda chwmnïau sy'n cyfrannogi (ni fydddech yn talu unrhyw arian ychwanegol- y manwerthwyr sy'n talu'r cyfraniad!). Mae wir yn ffordd hawdd o gasglu arian, cofiwch ofyn i'r teulu gyfan!

### **Empties Please**

A fydddech chi'n fodlon anfon hen getris inc i'r ysgol er mwyn eu hailgylchu? Bydd bocs casglu a bagiau pwrpasol ar gael yng nghyntedd y Ganolfan. Mae'n ffordd hawdd o godi arian ac yn helpu'r amgylchedd ar yr un pryd- pa well?! Beth am i chi annog eich teulu, gweithle ac aelodau'r gymdeithas i gymryd rhan? Ewch [i'r wefan](#) i weld pa getris sy'n gymwys.

### **Bag2School**

Rydym yn casglu dillad, esgidiau ac ategolion ail law o safon dda fel ffordd o godi arian. Bydd y casgliad nesaf yn cael ei wneud ar Hydref y 1af. Os hoffech gael gwared ar eitemau dewch a nhw mewn bag plastic wedi ei gau yn dynn i gyntedd neuadd yr ysgol. Ewch i'r wefan [bag2school](http://bag2school) am ragor o wybodaeth.

opportunity to have your say on events such as the school concert during the year.

Further information about some of our ongoing fundraising efforts and how you can support is included below:

### **School Lottery**

How about purchasing a school lottery ticket through the following website

[www.YourSchoolLottery.co.uk/play](http://www.YourSchoolLottery.co.uk/play)

*by choosing Cerrigydrudion School as the charity you'd like to support. As a supporter, you can join for as little as £1 per week and for this, you will have the chance of winning a guaranteed weekly prize for someone within the Cerrigydrudion school community. The more people that participate, the bigger this guaranteed prize becomes and the more money raised for the school.*

### **Easy Fundraising**

*Why not kick-start the efforts with some easy online based fundraising?! Simply search the above website for Ysgol Cerrigydrudion, register your details, and the school will receive donations on your behalf every time you shop online with a participating retailer (you won't be paying any extra- the retailers pay the donations!). It really is an easy way to raise funds, remember to involve the family!*

### **Empties Please**

*Would you be willing to send your used ink cartridges to school to be recycled? There will be a collection box and bags in the foyer by the School Hall. It's an easy way to raise money whilst helping the environment at the same time- it's a win-win! How about encouraging family, the workplace and members of the community to participate? Visit [the website](#) to see which cartridges qualify.*

### **Bag2School**

*We collect good quality clothing, shoes and accessories as a way of raising funds. The next collection will be 1st of October. If you have items you wish to donate please bring them in a tightly closed plastic bag and leave them at the School Hall foyer. Visit the [Bag2school](http://bag2school) website for further information.*

### Llaeth y Llan

Gobeithio eich bod wedi bod yn casglu'ch caeadau iogwrt llaeth y llan dros yr Haf! Mae'r gystadleuaeth yn ail-ddechrau mis Medi felly cofiwch ddod a'r caeadau i mewn i'r ysgol mewn amlen neu fag plastic i'r Ysgol fod a siawns o ennill £1,000.

### I le yr aiff arian y CRhA?!

Ers y Cyfnod Clo rydym wedi rhoi arian i brynu: 1 x Bwrdd rhyngweithiol 'touchscreen active' ar gyfer dosbarth meithrin a derbyn (felly mae cyfanswm o 3 bwrdd rhyngweithiol wedi eu prynu gyda arian y gymdeithas rhieni ac athrawon yn ddiweddar).

Mae arian hefyd wedi cael ei roi tuag at brynu dwy sied ar gyfer ardal tu allan y cyfnod sylfaen.



a chadair cyfaill ar gyfer iard yr ysgol.




### Llaeth y Llan

*We hope you have been collecting Llaeth y Llan lids over the summer! The school's competition will resume this month so rememebtr to keep collecting Llaeth y Llan yogurt lids and bring them to school in an envelope or plastic bag for the School to be in with a chance of winning £1,000.*

### Where does the money raised by the PTA go?!

*Since the lockdown period we have purchased:  
1 x Touchscreen interactive screen for the nursery and reception class (a total of 3 interactive screens have recently been purchased using PTA funds.)*

*We have also purchased two outdoor sheds for the foundation phase*



*as well as a companion chair for the school yard.*





Diolch hefyd i'r rhieni Pete a Leanne Hughes, Simon Miller ac Alan Evans wnaeth gyfrannu logiau coed i'r ardal tu allan.



Ein nod am y flwyddyn i ddod fydd gwella yr ardal tu allan ymhellach i'r plant gael mwy o gyfleoedd addysgu yn yr awyr agored. Yn dilyn sefyllfa Covid 19 mae pwyslais mawr bellach ar weithio yn yr awyr agored ac mae hwn yn gyfle ini wella yr ardal er budd y disgyblion. Yn ystod y cyfnod clo mae'r staff a'r plant gofal wedi bod yn brysur yn dechrau cael trefn ar yr ardd. Mae'r ysgol hefyd yn rhan o Brosiect Peillwyr Ysgolion Conwy. Wrth datblygu yr ardal tu allan gobeithio y bydd hyn yn ein galluogi i gynnal gweithgareddau megis clwb garddio yn y dyfodol.

Dwi'n ymwybodol bod lot fawr o wybodaeth wedi cael ei gynnwys yn y cylchlythyr yma ond byddem wir yn falch o dderbyn eich syniadau a'ch barn ar y materion pwysig yma erbyn dydd Gwener 25ain o Fedi os gwelwch yn dda drwy ebostio [CRhACerrigPTA@outlook.com](mailto:CRhACerrigPTA@outlook.com) neu dod a'r hoiaduron nol i'r ysol. Diolch am eich cefnogaeth.

*Thanks also to parents (Pete and Leanne Hughes, Simon Miller and Alan Evans) who donated logs for our outside area.*



*Our aim for this academic year will be to further improve the outdoor area to enable the children to have more outdoor education opportunities. As a result of Covid 19 there is now great emphasis on working outdoors and this is an opportunity to improve the area for the benefit of the pupils. During the lockdown period the staff and the children who received childcare have started to tackle the garden. The school is also part of the Conwy School Pollinator Project. In developing the outside area we also hope that this will assist to run activities such as a gardening club in the future.*

*I am aware that a great deal of information has been included in this newsletter but we would really appreciate your input and ideas on these important issues. We would appreciate if you could respond by emailing [CRhACerrigPTA@outlook.com](mailto:CRhACerrigPTA@outlook.com) or bring the completed questionnaires to school by Friday 25th of September please. Thank you for your support.*

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad/ *Thank you for your co-operation*  
**Elliw Gwilym Owen**  
**Ysgrifenyddes Cymdeithas Rhieni ac Athrawon/**  
**Secretary for Parents and Teachers Association**